ADRODDIAD LLAWN BLYNYDDOL Y RHIENI/ LLYWODRAETHWYR
YSGOL WAUNFAWR

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn o sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Llywodraethwyr, Y Pennaeth a'r Awdurdod Addysg Lleol mewn perthynas a'r ysgol yn ystod y flwyddyn 2017-8

2.
MANYLION AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL 2017-8

Cadeirydd y Llywodraethwyr	**Mr Huw Ynyr**	**Dolwar Fach 012650108** **huwynyr@hotmail.co.uk**
Clerc y Llywodraethwyr	**Mrs Nia Griffith**	**Ysgol Waunfawr 01286 650451** **niagriffith@waunfawr.llyw.cymru**

AELODAU	STATWS	CYFNOD (hyd at)
Mrs Sian Angharad	**Rhieni**	**1/9/19**
Mrs Nia Williams	**Rhieni**	**1/9/20**
Mrs Sian Roberts	**Rhieni**	**1/9/20**
Mrs Justine Williams	**Rhieni**	**1/9/20**
Mr Huw Ynyr	**Cyfetholedig**	**1/12/21**
Mr Erddin Llwyd	**Cymunedol**	**1/9/20**
Mr Rhodri Sion	**Awdurdod Addysg**	**1/9/21**
Mr Dylan Rhys Jones	**Awdurdod Addysg**	**1/9/20**
Cyng. Edgar Owen	**Awdurdod Addysg**	**31/8/21**
Mr Doug Jones	**Cyngor Cymuned**	**30/4/21**
Mrs Mari Rowlands	**Staff Ategol**	**31/8/21**
Miss Sioned Hughes	**Athrawon**	**31/8/19**
Mrs Gwenan Williams	**Pennaeth**	**Rhinwedd ei swydd**

Un sedd wag Cyfetholedig.
Daw tymor 1 Aelod Rhieni nesaf i ben nesaf ar 1/9/19.

Cytundebau Staffio a chyllid	Disgyblu/ gwahardd disgyblion	Disgyblaeth/ diswyddo staff/cwynion
Sian Angharad **Justine Williams** **Rhodri Sion** **Huw Ynyr** **Gwenan Williams**	**Huw Ynyr** **Cyng. Edgar Owen** **Dylan Rhys**	**Erddin Llwyd** **Dylan Rhys** **Justine Williams** **Nia Williams**

Pwyllgor Apêl Disgyblaeth/Diswyddo staff	Iechyd ,Diogelwch ac Adeiladau	Amddiffyn Plant
Huw Ynyr **Rhodri Sion** **Erddin Llwyd** **Cyng. Edgar Owen**	**Mari Rowlands** **Nia Williams** **Cyng. Edgar Owen**	**Rhodri Sion**

2.1 DYDDIADAU CYFARFODYDD LLYWODRAETHWYR 2017-8

Tymor yr Hydref 2017	Tymor y Gwanwyn 2018	Tymor yr Haf 2018
Medi 28ain	**Ionawr 25ain**	**Mai 17eg**
Tachwedd 16eg	**Ebrill 19eg**	**Mehefin 5ed**
		Gorffennaf y 5ed

Cyfarfodydd y Llywodraethwyr:
Cynhaliwyd saith cyfarfod o'r Corff Llywodraethol llawn yn ystod y flwyddyn ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd o'r is-baneli/is-bwyllgorau yn ôl yr angen. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld yn yr ysgol.

PRIF FLAENORIAETHAU YR YSGOL 2017-2018 a sut lwyddwyd i'w cyflawni?
Bydd yr ysgol yn llunio Cynllun Datblygu yn flynyddol er mwyn cynllunio rhaglen o ddatblygiadau i gynnal a gwella ar safonau a sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Gwneir adolygiad o'r bwriadau gan y Corff drwy'r flwyddyn.
Mae'r blaenoriaethau yn seiliedig ar hunanarfarniad y staff o'r ddarpariaeth bresennol, yn adlewyrchu gofynion newydd, a hefyd flaenoriaethau sirol a chenedlaethol. Rhoddir sylw i'r wybodaeth gyfyd o'r drefn asesu ac o adroddiadau staff ymgynghorol. Mae copi cyflawn o'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ogystal â'r arfarniad llawn ar gael yn yr ysgol.

- **BLAENORIAETH 1: Codi safonau Saesneg -: Codi safonau lefelau uwch/cau'r bwlch rhwng ysgol a'r teulu Saesneg**
- **BLAENORIAETH 2: Codi safonau Rhif a Rhesymeg.**
- **BLAENORIAETH 3 – Addysgu- Cynnal a chodi safonau addysgu a dysgu er mwyn galluogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf ei allu.**
- **BLAENORIAETH 4 – Arweinyddiaeth ganol.**
- **BLAENORIAETH 5 – Meddylfryd o Dwf**
- **BLAENORIAETH 6 – Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol**

2.2 MANYLION YSGOL

Y Defnydd o'r Gymraeg:
Y Cwricwlwm - Mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rai agweddau ar rai pynciau.
Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu a^'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu a^'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. Annogir y disgyblion i siarad yr iaith tu fewn a thu allan i furiau'r ysgol ac mae'r ysgol wedi ymrwymo i Siarter Iaith yr Awdurdod.
Y Canlyniadau - Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, ni waeth beth yw iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant erbyn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2, yr un safon yn Saesneg a^ disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.

Hwyr Ddyfodiad
I'r dysgwr a ddaw i'r Adran Iau y nod yw cyflwyno'r iaith newydd cyn gynted eu bod wedi ymgartrefu. Rhoddir pwyslais ar y wedd lafar yn gyntaf, a phan fo'i iaith wedi datblygu'n foddhaol cychwynnir ar y sgiliau ieithyddol eraill. Mae Uned Iaith Dalgylchol Maesincla ar gael i hwyr ddyfodiad ble mae cyfleusterau ar gyfer cyflwyno cyrsiau dwys arbennigol i ddysgwyr .

2.3. MANYLION STAFFIO'R YSGOL:
NIFEROEDD PLANT YM MEDI 2017-
Nifer Athrawon - 5 llawn amser
Nifer gweinyddesau - 3 llawn amser + 1 rhan amser
Cymhorthion ADY -2 rhan amser
Strwythur Dosbarthiadau
Meithrin a Derbyn – Mrs Ceri Evans
Blwyddyn 1 a 2 – Miss Sioned Hughes
Blwyddyn 3 a 4 – Mr Michael Downey
Blwyddyn 4 a 5 – Mrs Hannah Williams
Blwyddyn 6 – Miss Lisa Williams

Cyfrifoldebau Staff (Cwricwlwm a heb fod yn ymwneud â'r cwricwlwm)
Gwenan Williams: Cyfrifoldeb Pynciol/Cydlynydd: Pynciau Craidd =C/S/M/G/ ABaCH Adran Iau
Sioned Hughes: Cydlynydd ADY/ Cyfnod Sylfaen/ Cydlynydd Rhif a Mathemateg/Cydlynydd Daearyddiaeth
Lisa Williams: Cydlynydd Llythrennedd ac Iaith/Cyd-Lynydd Gwyddoniaeth/ Cyngor Ysgol
Hannah Francis: Cyd Lynydd Addysg Gorfforol /Cyd- Lynydd TGCH/ Cyd Lynydd Cynllun Iach Ysgolion Gwynedd
Ceri Evans: Cyd Lynydd Cerdd

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau (sy'n adlewyrchu gofynion y Cytundeb Gweithlu).
Mae Miss Sioned Hughes bellach yn derbyn lwfans CAD 2 sef £2,230.00 y flwyddyn fel Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chyfrifoldeb Rheolaethol.
Cyflogir Mrs Nia Griffith yn gymhorthydd clerigol am awr y dydd i leihau baich athrawon gyda'r cofrestrau. (5 awr yr wythnos).
Cyflogir Mrs Nia Griffith yn gymhorthydd clerigol yn y swyddfa am 3 awr y dydd (15 awr yr wythnos).
Cyflogir 1Cymhorthydd Sgiliau Sylfaenol am 20 awr yr wythnos i dargedu grwpiau o blant sy'n tangyflawni yn y sgiliau sylfaenol. (Grant Amddifadedd) mewn Rhifedd a Llythrennedd.

Athrawon	Bl	M	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
	Meithrin	12								12
	Derbyn		22							22
	B1			28						28
	B2				11					11
	B3					17				17
	B4						16			16
	B5							17		17
	B6								19	19
		12	22	28	11	17	16	17	19	142

Trefniadaeth Dosbarthiadau

Yn Statudol ni chaniateir mwy na 30 o blant mewn unrhyw ddosbarth yn y Cyfnod Sylfaen.Mae niferoedd blwyddyn Ysgol Waunfawr yn amrywio yn flynyddol golyga hyn na allwn gynnal dosbarth i bob blwyddyn Ysgol gan nad yw'r cyllid na'r adeilad yn caniatau mwy na 5 dosbarth. Weithiau bydd blwyddyn 1 a 2 yn rhannu 3 /4, 4 /5 neu 5 a 6.

Iaith gartref/lafar y disgyblion

	Sy'n siarad Cymraeg gartref	Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl yn y Gymraeg	Sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl	Na allant siarad Cymraeg o gwbl
10 - 11 oed	15	4		
9 - 10 oed	17	1		
8 - 9 oed	15	1		
7 - 8 oed	11	6		
6 - 7 oed	9	2		
5 - 6 oed	22	1	5	
4 - 5 oed	17		4	
Meithrin	9			2
CYFANSWM =	115=82%	16=11%	9=6%	2=1%

CINIO AM DDIM 2017-8

Nifer	20	15%

Anghenion Addysgol Arbennig 2016-7

CAMAU	NIFEROEDD
Cyfrifoldeb yr ysgol -GY	5
Cyfrifoldeb yr ysgol a mwy- GYM	7
Grwpiau Ymyrraeth Gynnar	17

Presenoldeb dros y flwyddyn addysgol ddiwethaf: 97% 2017-8

Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
97%	94%	96%

Targed Presenoldeb ar gyfer 2017/2018 : 97% Sicrhau bod safonnau presenoldeb yn parhau dros 97%

3. Datganiad ar Y Cwricwlwm

Y Cyfnod Sylfaen (Meithrin – bl 2)

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys 7 o feysydd dysgu sef:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol.
- Dwyieithrwydd.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Corfforol.
- Datblygiad Creadigol.
- Gofynion Statudol Eraill: Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw.Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y meysydd dysgu er mwyn sicrhau fod plant yn dysgu mewn modd addas ac integredig. Mae'r dysgu'n weithredol gyda phwyslais ar chwarae mewn amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Caiff plant eu cynorthwyo i dyfu'n feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol.

Cyfnod Allweddol 2 (7 – 11oed) Pynciau'r Cwricwlwm :

Y PYNCIAU CRAIDD **Y PYNCIAU SYLFAEN**

- Cymraeg Hanes / Celf a Dylunio

- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Daearyddiaeth / Dylunio a Thechnoleg
Addysg Gorfforol / Cerdd

Gofynion Statudol Eraill yw:

Addysg Grefyddol
Addysg Rhyw
Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Nód y Cwricwlwm yw:

- Canolbwyntio ar y dysgwr.
- Sicrhau bod y weithred o ddatblygu sgiliau priodol yn cael eu plethu drwy'r holl gwricwlwm.
- Canolbwyntio ar barhad a dilyniant addysg 3-19 oed.
- Canolbwyntio ar ddatblygu meddwl a sgiliau.
- Bod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain.
- Cefnogi Polisi'r Llywodraeth gan gynnwys dwyieithrwydd, Y Cwricwlwm Cymreig/ Cymru, Ewrop a'r Byd, cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd, addysg ar gyfer datblgiad cynaliadwy a dinasyddiweth fyd-eang, a'r byd gwaith ac entrepeneuriaeth.

3.1Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau a Chanlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Canlyniadau asesiadau statudol diweddaraf y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ar gyfer Cyfnodau Allweddol Cyfnod Sylfaen

TARGEDAU A CHANLYNIADAU BLWYDDYN 2 Haf 2018

Nifer : 11 2018	Cyfwerth pob disgybl : 8.3%			Canran ADY : 0%		
Blwyddyn 2	TARGEDAU gwreiddiol			Canlyniadau Haf 2018		
PWNC	Deill 5	Deill 6	DCS	Deill 5	Deill 6	DCS
Iaith	55%	45%	100%	55% 6/11	45% 5/11	100%
Mathemateg	73%	27%	100%	64% 7/11	36% 4/11	100%
Personol a Chymdeithasol	9%	91%	100%	9% 1/11	91% 10/11	100%

Cymharu canlyniadau yn erbyn y targedau gwreiddiol:

- Wrth gymharu canlyniadau yn erbyn y targedau gwelir ychydig o newidiadau oherwydd :
- Canllaw a ddosbarthwyd gan GWE gyda'r deilliannau sef bod 51% yn cyrraedd y deilliant.
- Defnyddiwyd eleni daflen asesu Deilliannau'r CS ar glawr blaen llyfrau'r disgyblion a gwelwyd bod hyn yn arfer dda ar gyfer asesu a chynllunio tasgau i'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial.
- Canlyniadau y gorau ers 5 mlynedd – 100% ym mhob pwnc craidd.
- 1 plentyn heb gyrraedd D6 mewn Mathemateg fel a dargedwyd.

TARGEDAU A CHANLYNIADAU BLWYDDYN 6 Haf 2018

Nifer : 19 -2018	Cyfwerth pob disgybl : 6%				Canran ADY : 11.8%		
Bl 6	TARGEDAU gwreiddiol				Canlyniadau 2018		
PWNC	L4	L5	DCS	L4	L5	L6	DCS
Cymraeg	47%	42%	89%	31% 6/19	37% 7/19	16% 3/19	84%
Saesneg	32%	58%	89%	26% 5/19	47% 9/19	16% 3/19	89%
Mathemateg	32%	58%	89%	37% 7/19	31% 6/19	21% 4/19	89%
Gwyddoniaeth	32%	58%	89%	32% 6/19	58% 11/19		89%

Cymharu canlyniadau yn erbyn y targedau gwreiddiol:

Wrth gymharu canlyniadau yn erbyn y targedau gwelir ychydig o newidiadau oherwydd :

- Canllaw a ddosbarthwyd gan GWE gyda'r lefelau sef bod 51% yn cyrraedd y lefel uwch.
- Defnyddiwyd eleni daflen asesu Lefelau 3/4/5 ar glawr blaen llyfrau'r disgyblion a gwelwyd bod hyn yn arfer dda ar gyfer asesu a chynllunio tasgau i'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial.
- Cyfarfodydd cymedroli gydag Ysgol Uwchradd Brynrefail ac ysgolion eraill y dalgylch wedi codi lefelau 5 a 6 disgyblion.

Cymraeg

3 disgybl na chyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig
1 disgybl ADY – geneth / 1 disgybl ADY – bachgen / 1 disgybl hwyrddyfodiad a fynchodd yr Uned Iaith (llwyddodd i gael L4 Llafar L 3 Darllen ac Ysgrifennu).Roedd y Targedau gwreiddiol wedi nodi ei bod i gyrraedd L4
7 o ddisgyblion yn siarad Saesneg gartref.
53% wedi sgorio L5 a 6

Saesneg / Mathemateg a Gwyddoniaeth

89% 2 ddisgybl na chyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig
1 disgybl ADY – geneth
1 disgybl ADY – bachgen
63% wedi sgorio L5 a 6 mewn Saesneg
52% wedi sgorio L5 a 6 mewn Mathemateg
58% wedi sgorio L5 a 6 mewn Gwyddoniaeth.

3.1. Gwybodaeth am y targedau

- Rydym fel staff a Llywodraethwyr yn ail edrych ar y targedau'n dymhorol ac mae cynnydd plant yn cael ei dracio'n ofalus ar draws yr ysgol.
- Diweddarwyd targedau 2015 yn dilyn Ymweliad 1 gan yr Ymgynghorydd Allanol ,bydd yr ysgol yn defnyddio gweithdrefn FSM wrth osod targedau i'r dyfodol.Targedir grwpiau penodol er mwyn gwella cyflawniad ac amcanion yr ysgol.Cyflwynir sylwadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd â'r targedau yn dymhorol yn Adroddiad y Pennaeth i'r Corff Llywodraethwyr.

Targedau 2018-9

Targedau Bl 2 Haf 2019

Nifer :28	TARGEDAU 2018-9			Canran ADY	D=
Bl 2	Cyfwerth pob disgybl :8.3%			GYM =	GY=
PWNC	Deill 5	Deill 6	DCS	D5	D6
Iaith	36%	36%	72%	M 4/15 = 27% B 6/13 = 46%	M 5/15 = 33% B 5/13 =38%
Mathemateg	29 %	43%	72%	M 5/15 = 33% B 3 /13 =23%	M 5/15 = 33% B 7/13 = 54%
Pers	32%	54%	86%	M 5/15 = 33% B 4 /13 = 31%	M 8/15 = 53% B 7/13 = 54%

Targedau Bl 6 Haf 2019

Nifer : 17	TARGEDAU 2018-9			Canran ADY	D=0
Bl 6	Cyfwerth pob disgybl : 6%			GYM = 3=18%	GY=
PWNC	L 4	L5	DCS	L4	L5
Cymraeg	35%	53%	88%	M 2/7 = 28% B 3/10 = 30%	M 5/7 = 72% B 4/10= 40%
Saesneg	35%	53%	88%	M 2/7 = 28% B 4/10 = 40%	M 5/7 = 72% B 4/10=40%
Mathemateg	41%	29%	71%	M 2/7 = 29% B 4/10 = 40%	M 2/ 7= 29% B 3/10= 30%
Gwyddoniaeth	24%	59%	82%	M 2/7 = 28% B 2/10 =20%	M 5/7= 72% B 5/10= 50%

3.2.Absenoldebau /Ffigyrau presenoldeb disgyblion ysgol gyfan:
Rydym yn falch o ddweud fod presenoldeb y plant yn yr ysgol yn elfen ragorol, dyma'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf:

PRESENOLDEB 2017-8 97 % Awdurdodedig 2.9% Anawdurdodedig 0.6%

Tymor yr Hydref 2017	Tymor y Gwanwyn 2018	Tymor yr Haf 2018
Presenoldeb 97.3% Awdurdodedig 2.2% Anawdurdodedig 0.5%	Presenoldeb 93.5% Awdurdodedig 5.2% Anawdurdodedig 1.3%	Presenoldeb 96.2% Awdurdodedig 3.3% Anawdurdodedig 0.5%

Gwobrwyir y plant am bresenoldeb 100% tymhorol - mewn ymgais i ddŵyn perswad i beidio bod yn absennol heb reswm dilys.
Yn ystod Tymor yr Hydref 2017 cyflwynwyd 30 tystysgrif am bresenoldeb 100%
Yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018 cyflwynwyd 20 tystysgrif am bresenoldeb 100%
Yn ystod Tymor yr Haf 2018 cyflwynwyd 41 tystysgrif am bresenoldeb 100%
Derbyniodd 7 blentyn docyn llyfr £5.00 am bresenoldeb llawn dros y flwyddyn 2017-8.

Nifer y sesiynau hanner diwrnod yr oedd yr ysgol ar agor	49,251
Cyfanswm nifer y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb wedi ei awdurdodi	=1,715
Absenoldeb heb ei awdurdodi	= 251
Pob absenoldeb	=1,464
Canran y sesiynau a gollwyd oherwydd: Absenoldeb heb ei awdurdodi Absenoldeb wedi ei awdurdodi	=2.9% =0.6%

4. MATERION CYLLIDOL:

- Datganiad ariannol neu grynhoi unrhyw ddatganiad a ddarperir gan yr Awdurdod Addysg Lleol o ers yr adroddiad blynyddol ddiwethaf (Atodir ynghlwm).

Gwariant yr A.A.Ll ar adeiliad yr ysgol 2017-8

- Cynhaliwyd arolwg damp drwy'r Adran Iau yn Nhymor yr Hydref 2017.
- Cynhaliwyd gwaith atal damprwydd a pheintio yn yr Adran Iau dros wyliau Haf 2018 a chafwyd bleinds newydd ym mhob dosbarth.
- Mae 12 o doiledau ar gyfer 142 o ddisgyblion gydag un toiled i'r anabl. Cânt eu glanhau yn ddyddiol.

RHODDION A DDERBYNIWD 2017-8:

H. Tempest	Lluniau Ysgol	£356.17
Antur Waunfawr	Ailgylchu Dillad	£ 45.20
Bwrdd Crwn Caernarfon	Rhodd	£200.00
Mark Sykes Siop y Pentref	Rhodd	£250.00
Eglwys Betws Garmon	Rhodd	£350.00
Clwb Ieuenctid Waunfawr	Rhodd	£ 50.00
Ras Eryri	Cynorthwyo gyda'r ras	£500.00
Urdd	Rhodd	£ 50.00
Noson Coeden Nadolig	Rhodd	£117.50
Cyngor Cymuned	Rhodd	£300.00
Cyfanswm		**£ 2,218.87**

Costau Teithio a Chynhaliaeth.

Noder nad yw Llywodraethwyr yr ysgol yn hawlio costau teithio na chynhaliaeth.

5. Y CAMAU GWEITHREDU A GYMERWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL / YSGOL yn dilyn adroddiad y Llywodraethwyr i'r Rhieni Tymor yr Hydref 2017.

- Yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 dosbarthwyd adroddiad cryno gan y Llywodraethwyr i'r Rhieni ym mis Tachwedd 2016.
- Dosbarthwyd llythyr ynghlwm i egluro rheoliadau newydd parthed cyflwyno deiseb i gynnal hyd at 3 cyfarfod rhieni yn flynyddol.
- Ni dderbyniwyd deiseb, o ganlyniad ni chynhaliwyd cyfarfod Llywodraethwyr gyda'r rhieni 2017-8.

Cysylltiadau â'r Rhieni 2017-8.

Yn ystod Tymor yr Hydref 2018:

- Cynhaliwyd Noson Ddarllen Tric a Chlic /Aled Afal i rieni y Cyfnod Sylfaen.
- Cynhaliwyd Nosweithiau Rhieni o flwyddyn meithrin i flwyddyn 6 daeth 100% o'r rhieni i'r nosweithiau.
- Trefnwyd Rota ymysg y rhieni i gynorthwyo gyda Ras Eryri. Cafwyd cynrychiolaeth wych o rieni ar y diwrnod.
- Cymerodd plant yr Adran Iau ran yn Noson Miri Sion Corn yn yr Antur
- Bu'r plant yn canu carolau o gwmpas y Goeden Nadolig ger y Ganolfan ddechrau mis Rhagfyr.
- Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn yr ysgol /3 Sioe Nadolig a Chyngerdd Nadolig Dosbarth Meithrin.

Yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018:

- Cynhaliwyd nosweithiau rhieni Tymor y Gwanwyn.Presenoldeb rhieni yn 100%.
- Cynhlaiwyd noson TGCh I rieni dan arweiniad Mathew Henshaw o Gwmni Cynnal a chafwyd gyflwyniad am E Ddiogelwch gan PC Dylan Pritchard
- Bu 'r disgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu 'n frwd yn yr Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd.

Yn ystod Tymor yr Haf 2018:

- Cafwyd ddiwrnod Mabolgampau llwyddiannus iawn darparwyd stondin lluniaeth gan y rhieni gwnaed £300 o elw.
- Cynhaliwyd cyngerdd i rieni y plant sy'n derbyn gwersi offerynnol yn y Ganolfan
- Cynhaliwyd cyfarfod i'r Rhieni Meithrin Newydd a chafwyd Cyfarfod Gwobrwyo a Ffarwelio BL 6 ddiwedd y tymor.
- Bu 'r disgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu 'n frwd yn yr Eisteddfod Bentref Waunfawr.
- Aeth llond bws o ddisgyblion a'u rhieni i gystadlu yn Eisteddfod Genedaethol yr Urdd yn Llafair –ym –Muallt ym mis Mehefin.
- Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo a Ffarwelio blwyddyn 6 ddiwedd y tymor.Anrhegwyd y disgyblion gyda geiriadur,plat coffa a llyfryn atgofion.

Ymwelwyr a fu'n yr ysgol 2017-8

- Bu Ymgynghorwyr Her GWE yn ymweld å'r ysgol yn dymhorol gan graffu ar adroddiadau mewnol yr ysgol a llunio Adroddiadau Crynodol ar wahanol agweddau o waith yr ysgol
- Athrawon Arbennigol ac Asiantaethau amrywiol.
- Ceir ymweliadau tymhorol gan Lori Lyfrgell Cyngor Gwynedd, a chaiff y disgyblion gyfle i ddewis llyfrau am y tymor.
- Cynhaliwyd wasanaethau crefyddol bob hanner tymor gan Mrs Susan Edwards Swyddog Cymunedau Eglwysig y Dalgylch.
- Yn dymhorol cesglir dillad i'w hail gylchu gan yr Antur.
- Ceir ymweliadau tymhorol gan y Seicolegydd Addysg Elenid Glyn, Bethan Jones athrawes o'r Uned Anhwylderau Iaith Dolbadarn a cheir ymweliadau wythnosol gan yr athrawes Gwybyddiaeth a Dysgu.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd strategol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r asiantaeth Gyda'n Gilydd i gefnogi teuluoedd ag anghenion ychwanegol.
- Ceir ymweliadau tymhorol gan Swyddog yr Heddlu Cymunedol Mr Dylan Pritchard a chaiff sesiynnau addysgol eu trefnu'n dymhorol ar gyfer y disgyblion gan y Swyddog Cyswllt Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru. Cyd weithir hefyd gyda y Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid pan fo angen.
- Bu Carys Ofalus yn cyflwyno gwersi diogelwch y ffordd i flwyddyn 1 a 2 a derbyniodd Bl 6 wersi beicio Lefel 1 a 2 yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018.
- Bu Lowri o'r Urdd yn cynnal gwersi athletau a chawaraeon i ddisgyblion CA2 dros dymor y Gwanwyn.
- Bu Deilwen Hughes o Brifysgol Bangor yn arsylwi athro ANG.
- Cafwyd ymweliad tymhorol gan y fan lyfrgell.
- Derbyniodd 1 myfyriwr o Goleg Menai hyfforddiant Cwrs NVQ Lefel 3 dros y flwyddyn.
- Bu gweithwyr yr elusen NSPCC yn cynnal gweithdy gyda'r disgyblion, gwneir hyn bob yn ail flwyddyn.
- Bu'r ffotograffydd yn tynnu lluniau disgyblion unigol, teuloedd, dosbarthiadau ac ysgol gyfan.

- Bu pedair o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yma am wythnos ar brofiad gwaith ym mis Gorffennaf 2018.
- Yn ystod tymor yr Hydref a'r Haf daw Mrs Anwen Edwards Pennaeth Blwyddyn 7 a Mrs Sharon Owen Cyd lynnyd ADY Ysgol Brynrefail i weld disgyblion blwyddyn 6 sy'n trosglwyddo i'r Uwchradd.

Cyfrannodd y disgyblion a'r staff i'r canlynol 2017-8

Casgliadau at Achosion Da Tymor yr Hydref 2017	
Casgliad Ceiniog	**£ 60.00**
Plant Mewn Angen	**£ 150.00**
Cronfa Achub y Plant =Diwrnod Gwisgo Siwmper Nadoligaidd	**£ 60.00**
Y Lluoedd Arfog	**£ 120.00**
Aqua Aid	**£ 60.00**
Cyfanswm	**£ 450.00**
Casgliadau at Achosion Da Tymor y Gwanwyn 2018	
Casgliad Ceiniog	£ 60.00
Aqua Aid	£ 60.00
Diffib Waunfawr	£ 50.00
Ambiwlans Awyr	£ 50.00
Cyfanswm	**£220 .00**
Casgliadau at Achosion Da Tymor yr Haf 2018	
Casgliad Ceiniog	£ 60.00
Aqua Aid	£ 60.00
Sustrans	£ 85.00
Cyfanswm	**£ 205.00**
Cyfanswm Y Flwyddyn	**£ 875.00**

Grantiau

Grant Peillio

- Llwyddodd yr ysgol i dderbyn 'Grant Peillio' £3.000.00 prynwyd 5 bwrdd picnic newydd i'r cae ynghyd a bocsys blodau newydd l'r ardd, ty adar a buddsoddwyd mewn £350 o blanhigion newydd er mwyn denu pryfetach a gloynod byw i'r cae.Trefnwyd dau ddiwrnod o weithgareddau garddio.

Ysgolion Creadigol Arweiniol Bontnewydd a Waunfawr

- Llwyddodd yr ysgol drwy gydweithio gyda Ysgol Bontnewydd i dderbyn Grant Ysgolion Creadigol Arweiniol sef £13.000.00 dros ddwy flynedd er mwyn hybu gweithgareddau drama a cherdd gyda disgyblion blwyddyn 4 i ddatblygu eu sgiliau llafar Saesneg.
- Bu dau artist sef Gai Toms a Rhian Cadwaladr yn cynnal sesiynnau bob ddydd Gwener dros Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn.

Grant Dyfodol Llwyddiannus

- Derbyniwyd grant Dyfodol Llwyddiannus £10.000 i'r Dalgylch.Perfformiodd disgyblion bl 6 gyda'r grwp Plu yng Nghyngerdd Mawreddog Ysgol Brynrefail.

Cymdeithas Rhieni a Chyfellion yr Ysgol

Mae'r Corff Llywodraethol yn falch bod y Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion yn cynnal nifer o weithgareddau llwyddiannus dros y flwyddyn ac yn diolch i bawb fu'n cyfrannu mewn unrhyw fodd er budd yr ysgol.

Tymor yr Hydref 2017	
Ffair Nadolig	**£850.00**
Tymor y Gwanwyn 2018	
Noson Proseco a Body Shop	**£300.00**
Tymor yr Haf 2018	
Diwrnod Mabolgampau a Ffair Haf	**£1050.00**
CYFANSWM	**£ 2,200.00**

Gwnaed cyfraniadau tuag at brynu:
10 Chrome Book a Throli Pwrpasol =£3,000.00

Llawlyfr yr Ysgol

- Dosberthir Llawlyfr yr ysgol i rieni plant sy'n cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf sef plant y dosbarth Meithrin. Diweddarwyd y Llawlyfr Haf 2018.
- Dosberthir crynodeb o'r llawlyfr i weddill rhieni'r ysgol ddechrau Medi – i rannu gwybodaeth megis amserlen gwyliau/gweithdrefnau'r ysgol / Cytuneb ysgol a rhiant/manylion cyswllt a.y.b

Polisiau'r Ysgol

Mae gan yr ysgol ddatganiadau o bolisïau cwricwlaidd a rheolaethol sydd yn cael eu diwygio a'u mabwysiadu'n rheolaidd gan Gorff Llywodraethol yr ysgol yn eu cyfarfodydd. Gellir derbyn copi o'r holl bolisiau a adolygwyd yng nghyfarfodydd 2017-2018 drwy law'r ysgol. Yn flynyddol adolygir y polisiau canlynol: *Y Cwricwlwm /Iechyd a Diogelwch/Amddiffyn Plant/Cydraddoldeb Hiliol / Presenoldeb a Phrydlondeb/Polisi AAA/ Polisi Codi Tâl am Weithgareddau /Polisi Mynediad/Cyfle Cyfartal /Cyflog Athrawon a.y.b*

CYNLLUNIAU SYDD AR WAITH YN YR YSGOL:
Cynllun Webster Straton

Gweithredir strategaethau'r cynllun uchod yn yr holl ddosbarthiadau. Nód y cynllun yw hybu medrusrwydd plant ifanc yn emosiynol, a thrwy gynyddu deallusrwydd plant am emosiwn a theimladau.

Cyngor Ysgol

Etholir 2 gynrychiolydd, bachgen a merch o bob blwyddyn yn yr Adran IAU. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfarfod 6 gwaith o fewn y flwyddyn addysgol, 1 cyfarfod bob hanner tymor. Cynhaliwyd gyfarfodydd rheolaidd dan arweiniad Lisa Williams.Trefnwyd amser di- gyswllt ar gyfer y cyfarfodydd hyn ac yn ystod y flwyddyn fe fu'r Cyngor Ysgol yn trafod nifer o faterion oedd o bwys iddynt ynghyd å threfnu nifer o weithgareddau megis:

- **Plant mewn Angen -**Trefnodd y Cyngor Ysgol ddiwrnod hwyl er mwyn codi arian i ymgyrch Plant mewn Angen.Roedd pob plentyn wedi gwisgo fel Pudsey / neu mewn melyn a llwyddwyd i gasglu £150.00 ar gyfer yr achos. Gwnaed bisgedi Pudsey wedi eu haddurno a gwerthwyd glustiau a breichledi Pudsey.
- **Diwrnod Gemau Traddodiadol**- Dydd Gwener cyntaf ym mis Ionawr gofynnwyd i'r disgyblion unai wisgo 'onesie' neu ddillad a gawsant yn anrheg Nadolig a ddod á gem draddodiadol gyda hwy i gyd- chwarae gyda'i ffrindiau.
- **Diwrnod Santes Dwynwen –** dathliwyd Santes Dwynwen ddiwedd Ionawr drwy wisgo'n grand, gwneud gweithgareddau am Santes Dwynwen ,addurno bisged siap calon,gwneud cardiau a chael gem Cariad Cudd a disgo partneriaid yn y pnawn.
- **Diwrnod Gwyl Ddewi –**.Cafwyd wythnos o weithgareddau i ddathlu Wythnos Cymru Cwl.Bu'r plant yn dysgu rhigymau gemau buarth, cafwyd Sioe Owain Glyndwr, cynhaliwyd wasanaeth arbennig Dewi Sant a gorymdaith o gwmpas y pentref, sioe dalentau ,sesiynnau sgriptio gyda 3 o actorion Rownd a Rownd, sesiwn stori gyda'r llyfrgellydd Nia Griffith a sesiynnau dawnsio gwerin gyda Bethane Williams. Wythnos lwyddiannus iawn unwaith eto.
- **Cyflwyniad i'r Corff Llywodraethwyr-**Rhoddodd aelodau'r Cyngor gyflwyniad i'r Corff Llywodraethwyr yng nghyfarfod Mawrth 22ain 2018

Siarter Iaith – Gosodwyd blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys dadansoddi canlyniadau'r holiadur Siarter Iaith.
Gwobrwyir disgyblion yn y gwasanaeth wythnosol am eu parodrwydd i ddefyddio 'r Gymraeg a fe hyrwyddir gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg a gwylio rhaglenni teledu Cymraeg o fewn yr ysgol ar amser brecwast ac amser chwarae gwlyb.
Trefnodd y Cyngor Ysgol ddiwrnod o weithgareddau i ddathlu Santes Dwynwen /Dydd Gwyl Dewi a Diwrnod y Llyfr.
Cafwyd wythnos o weithgareddau i ddathlu Wythnos Cymru Cwl.Bu'r plant yn dysgu rhigymau gemau buarth, cafwyd Sioe Owain Glyndwr, cynhaliwyd wasanaeth arbennig Dewi Sant ,sioe dalentau ,sesiynnau sgriptio gyda 3 o actorion Rownd a Rownd, sesiwn stori gyda'r llyfrgellydd Nia Griffith a sesiynnau dawnsio gwerin gyda Bethane Williams.

Cangen Urdd Ysgol Waunfawr

Bu i 52 o ddisgyblion o flwyddyn 2 i flwyddyn 6.ymaelodi gyda'r Urdd.
Trefnwyd noson weithgareddau pob pythefnos a threfnwyd rhaglen amrywiol ar gyfer y flwyddyn megis noson Bingo ,addurno bisgedi i ddathlu Santes Dwynwen, sesiwn hwyl a sbri yn yr Hwylfan , gwaith llaw ,hyfforddiant Cymorth Cyntaf, bowlio deg ,sesiwn yn yr Antur,noson ffilm a nofio ym Mangor.
Bu i'r adran gystadlu yn Eisteddfod Gylch Arfon a chael llwyddiant gan fynd ymlaen i'r eisteddfod Sir Eryri a'r Genedlaethol.

Cynllun Brecwast am Ddim

Mae dros chwe deg o blant yn derbyn brecwast yn ddyddiol. Mae pedair o staff ategol yr ysgol yn paratoi'r brecwast o ddydd i ddydd. Cynhelir y clwb rhwng 8.20 a 8.40 y.b.Ers Pasg 2018 cynhelir Clwb Gofal o 8.00-8.20 y.b am gost o 80c y dydd.

Cynllun Iach

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i Gynllun Iach Ysgolion Gwynedd a Môn ac wedi cwblhau'r ail gam o'r cynllun. Byddwn yn cychwyn ar Gam 4 y cynllun y flwyddyn hon. Nodir yn y Llawlyfr mai ffrwythau un unig a ganiateir fel byr bryd amser chwarae. Ni chaniateir melysion a diodydd siol.

Cynllun William Mathias

Derbynniodd 35 o blant wersi offerynnol yn yr ysgol gan 3 athro llinynol a phres dan nawdd Cynllun William Mathais

6. TREFNIADAETH A PHOLISIAU ADY

- Mae gan yr ysgol bolisi a chanllawiau priodol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a chydymffurfia á gofynion y Còd Ymarfer. Adolygir y polisi yn flynyddol.
- Cedwir cofrestr o blant sydd ar gamau a chaiff grwpiau o blant gymorth ychwanegol gan Athrawes Gwybyddiaeth a Dysgu sy'n treulio dau fore'r wythnos yn yr ysgol. Cydweithir yn agos gydag Adran Anghenion Arbennig y Sir a'r Asiantaethau Arbennigol.
- Miss Sioned Hughes yw'r Cyd-gysylltydd ADY (Mrs Hannah Williams dros gyfnod mamolaeth Miss Hughes) a Mrs Nia Williams yw'r Lywodraethwraig ddynodedig.

Gweithdrefnau

- Asesir plant wrth gychwyn eu haddysg yn y dosbarth meithrin a chedwir cofnod manwl o'u datblygiad a'u cynnydd drwy asesiad parhaus yr athrawes ddosbarth a'r cymhorthyddion.
- Targedir yn fuan os gwelir bod anhawsterau penodol neu oediad mewn datblygiad iaith a chyfathrebu.
- Rhoddir sylw penodol ac ymyrraeth fuan gan gymhorthydd am gyfnodau penodol yn ddyddiol yn y Cyfnod Sylfaen.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2- targedir grwpiau yn fwriadus gyda'r cymhorthydd sgiliau sylfaen am 3 awr yn ddyddiol .Asesir disgyblion wedi ymgynghoriad o ddau dymor i gael mwy o gymorth arbennigol darpariaeth yr Awdurdod Addysg Lleol.
- Cynhaliwyd 8 adolygiad blynyddol plant ADY sy'n derbyn Cymorth Ysgol a Mwy.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd tymhorol gyda'r Asiantaethau Allanol megis Y Seicolegydd Addysg / Athrawon Arbennigol Anhwylderau Iaith / Therapyddion Iaith/Y Gwasanaeth Cyfiawnder /Gwasanaethau Cymdeithasol ac Athrawon Arbennigol Ymddygiad.

Cymhorthyddion ADY

- Mae 2 o gymhorthyddion un i un ADY yn yr ysgol a gyflogir gan yr Awdurdod 2017-8.
- Mae tair cymhorthydd a gyflogir gan yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant Dyfal Donc Rhif ac Iaith er mwyn rhoi ymyrraeth i ddigyblion unigol sydd á phroblemau Dyslecsia.
- Maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant ELKLAN ar gyfer ymyrraeth fuan.

Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol

- Cynhaliwyd cyfarfodydd Strategol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfodydd tymhorol gyda'r Asiantaeth Gyda'n Gilydd sy'n gweithio i gefnogi teuluoedd bregus ag anghenion ychwanegol.
- Bu'r Athrawes Gwybyddiaeth a Dysgu o'r Awdurdod yn cynorthwyo disgyblion Gweithredu Ysgol a Mwy dau fore'r wythnos dros y flwyddyn.
- Bu Delyth Gibbard Athrawes Arbennigol Cyfathrebu a Rhyngweithio a Siwan Jones Cymhorthydd yn gweithio'n rheolaidd dros y tymor gyda disgybl Awtisitig.
- Bu'r seicolegydd Elenid Glyn yn asesu sgrinio Dyslecia ar 3 o blant.
- Cynhaliwyd 5 adolygiad disgyblion ADY a chafwyd cyd- weithio effeithiol gydag amrywiol asiantaethau.
- Bu'r Therapydd Iaith yn gweithio gyda 3 disgybl gydag Anhawsterau Iaith.
- Bu Siwan Jones Cymhorthydd Cyfarthrebu a Rhyngweithio yn gweithio gyda disgybl Awtistig.
- Bu'r Asiantaeth Cruise sy'n cownsela disgyblion i ymdrin a cholled teuluol yn cyd- weithio gyda disgybl.
- Mynychodd GW gyfarfodydd misol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y flwyddyn.

DISGYBLION AG ANABLEDDAU:

Mae mynediad a thoiled pwrpasol ar gyfer disgyblion anabl a chymerir bob cyfle i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.

Cydraddoldeb:

- Rhoddir gyfle cyfartal i holl ddisgyblion Ysgol Waunfawr yn seiliedig ar amcanion a datblygiad personol.
- Sicrheir nad yw plentyn yn cael ei ragfarnu ar sail iaith, oed, rhyw, gallu, crefydd, cefndir cymdeithasol, afiechyd neu anabledd.
- Dosberthir plant i grwpiau dysgu cymysg eu rhyw, iaith a gallu.
- Hyrwyddir y syniad o gydraddoldeb ym mhob agwedd o'r gwaith sy'n digwydd o fewn yr ysgol(Rhaid fodd bynnag parchu rheolau cystadleuthau allanol sy'n gwahaniaethu ar sail rhyw).Gobeithir, drwy gynnig cyfle cyfartal i ddisgyblion, bwysleisio gwerth pob unigolyn fel aelod o gymdeithas.

DIOGELWCH

Mae trefniadau diogelwch i'w dilyn yn yr ysgol ac fe fyddant yn cael eu hadolygu gan y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tân: Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd pob hanner tymor. Mae pob aelod o staff yn weithredol yn y broses ymarferion a diogelwch tân. Archwilir y diffoddyddion tân yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Profir y goleuadau argyfwng yn rheolaidd.

Mynedfeydd; Mae'r mynedfeydd yr ysgol wedi eu diogelu. Gellir cael mynediad i'r ysgol trwy gloch wrth y brif fynedfa.

Adeiladau: Cynhelir arolwg o adeiladau'r ysgol yn flynyddol ac mae'r Pennaeth yn cadw golwg ar eu diogelwch o ddydd i ddydd gan hysbysu'r awdurdodau o unrhyw beryglon.

Offer: Archwilir offer addysg gorfforol yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Archwilir holl offer trydanol yn flynyddol gan asiantaeth allanol.

Cymorth Cyntaf: Mae 3 aelod staff wedi dilyn hyfforddiant ac fe ail archredir eu cymhwyster pob tair blynnedd.

Asesiadau risg: Cwblheir y rhain yn ôl y gofyn, gan anfon copi i'r Awdurdod Addysg.Crëwyd nifer sylweddol yn ystod y flwyddyn i gyd- fynd åg ymweliadau addysgol.

CHWARAEON

Gwersi Addysg Gorfforol yr ysgol:

- Dosbarth Meithrin a Derbyn sesiwn ¾ awr o Addysg Gorfforol yr wythnos.
- Blwyddyn 1 a 2 = sesiwn ¾ awr o addysg gorfforol a gwers nofio ½ awr yr wythnos.
- Blwyddyn 3- 6 = sesiwn awr o addysg gorfforol a gwers nofio /tenis neu gymnasteg ½ awr yr wythnos.
- Yn nhymor y Gwanwyn a'r Haf annogir disgyblion CS a CA2 i gymryd rhan yn y Clwb Dal i Fynd – sef cynllun i hybu plant i gerdded neu redeg rownd y trac 100m sydd ar yr iard. Caiff disgyblion eu gwobrwyo gyda thystysgrif i nodi eu hymdrechion bob 1km.

Cynllun 'Kick it'- Caiff disgyblion Bl 2 – Bl 6 gyfle i fynychu gwersi pêl droed am gyfnod o 6 wythnos yn ystod tymor yr Hydref.Derbyniodd oddeutu 34 o ddisgyblion wersi eleni.

MABOLGAMPAU Trefnir y diwrnod Mabolgampau yn ystod Mehefin. Rhennir holl blant yr ysgol o'r meithrin i flwyddyn 6 yn dri tim: Tim Gwyrfai/ Cwellyn ac Eilio. Bydd y timau yn ethol 2 gapten o flwyddyn 6 ac 2 is –gapten o fl 6. Tim Eilio oedd yn fuddugol eleni. Llongyfarchiadau i'r capteiniaid Gruff Llwyd ac Elain o flwyddyn 6.

Ennillwyr Mabolgampau 2018 -Pencampwyr yr ysgol eleni oedd Martha ac Aled o flwyddyn 5

Cymerodd disgyblion CA2 ran yn y cystadlaethau canlynol:

- Yn ystod tymor yr Hydref cymerodd y tim Pel Rwyd ran yn Nhwrnament Ysgolion Arfon.
- Derbyniodd Bl 6 hyfforddiant 4 diwrnod i ddatblygu sgiliau beicio Lefel 1 a 2 Cynllun Gwynedd ym mis Mehefin.
- Bu Tim Rygbi'r ysgol yn cystadlu yn Nhwrnament Rygbi Ysgolion Arfon ar y Morfa yng Nghaernarfon ym mis Hydref 2017 gan ennill y gystadleuaeth.
- Yn ystod tymor y Gwanwyn 2018 bu i'r tím athletau Bl 6 ennill Twrnament Athletau Ysgolion Arfon gan ddod yn bedwerydd yng nghystadleuaeth Ysgolion Gwynedd.
- Ennillodd y tim Nofio cystadleuaeth Gala Ysgolion Arfon.
- Cynhaliwyd diwrnod i ddatblygu sgiliau beicio dan arweiniad Gwen o Sustrans Cymru.Cafwyd un sesiwn o drwsio beics a sgwteria chafwyd diwrnod o hyfforddiant sgiliau.Bu i'r disgyblion gymryd rhan yn yr ymgyrch 'Big Pedal' drwy feicio a sgwetera i'r ysgol am gyfnod o ddeg diwrnod.Llwyddodd yr ysgol i gyrraedd y seithfed safle drwy Gymru.
- Cafwyd gem bel droed yn erbyn Ysgol Dolbadarn ddiwedd Mehefin.Trefnir y gemu hyn yn dymhorol ac mae'r disgyblion yn mwynhau y gemau cyfeillgar rhwng y ddwy ysgol.
- Bu i'r disgyblion gystadlu yn Athletau Cylch Sir a Gogledd Cymru yr Urdd.
- Cynhaliwyd Twrnament Tenis Ysgolion Arfon i flynyddoedd 3 /4/ 5/ 6 yn y Ganolfan yng Nghaernarfon ddiwedd Mehefin
- Derbyniodd blwyddyn 6 eu gwobr Gwricwlwm Nofio Tymor yr Haf 2018.
- Daeth y Tim Rygbi yn 1af yn yr Wyl Rygbi ym Morfa Bychan ddechrau Gorffennaf 2018.

YMWELIADAU ADDYSGOL 2017-8

Tymor yr Hydref 2017

- Bl 5 a 6 wedi ymweld å'r Ysgwrn cartref Hedd Wyn a Phlas Ednowain Trawsfynydd.

- Bu'r ddau ddosbarth yn Amgueddfa Genedlaethol Rhyfel ym Manceinion hefyd.
- Bu Cwmni Mewn Cymeriad yn perfformio hanes Hedd Wyn i'r Adran Iau.
- Mr Keith O'Brien o Drawsfynydd yn adrodd hanes codi cofeb i'r Cymry a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn Fflandrys Gwlad Belg Cafwyd gyflwyniad diddorol iawn ganddo.
- Daeth Gwenda Roberts o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 2 am hen degannau, roedd y disgyblion wedi eu cyfareddu gyda'r hen ddoliau a'r topiau pren.
- Bu Gwenda Roberts hefyd yn rhoi sgwrs i Fl 3 a 4 am Degannau yn Oes Fictoria.
- Treuliodd bl 3 a 4 ddiwrnod yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanymstundwy yn dysgu am fywyd yn Oes Fictoria.Cawsant wisgo a chael gwers yn null y cyfnod ac ymweld å bwthyn Highgate.
- Bu Mr Jonh Dilwyn o'r Archifdy yng Nghaernarfon yn rhoi sgwrs i flwyddyn 6/5 am yr Ail Ryfel Byd.
- Bu Mrs Catherine Jones a Mrs Pat Parry yn difyrru plant y ddau ddosbarth ddoe gyda'u hanesion am adeg y rhyfel yn Waunfawr.
- Bu dosbarth MD ar ymweliad yn yr Amgueddfa yn Llanymstundwy i gael profiad o ddiwrnod ysgol yn Oes Fictoria.
- Cyn y Nadolig bu i ddosbarthiadau y Babanod ymweld å Frongoch i weld addurniadau a goleuadau y Nadolig i gyd- fynd å'u thema Dathliadau.
- Bu Dosbarth 1 a 2-yn Pontio yn gweld perfformiad Miri Sion yn y cynhyrchiad Caban Hud Rhagfyr 14eg.
- Yn ystod mis Rhagfyr bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael brecwast gyda Sion Corn cyn y Nadolig.

Tymor y Gwanwyn 2018

- Cafwyd dwrnod Gemau Traddodiadaol ddechrau'r flwyddyn roedd pawb wedi mwynhau cyd chwarae a thrafod.
- Yn ystod y tymor dathliwyd ddydd Santes Dwynwen /Dydd Gwyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr a chafwyd wythnos o weithgareddau i ddathlu Wythnos Cwl Cymru.
- Bu disgyblion sy'n derbyn gwersi offerynnol chwyth yn yr ysgol yn perfformio yn Theatr Seilo gyda Band Ysgolion Arfon.
- Bu plant y dosbarth derbyn yn ymweld å'r llyfrgell yng Nghaernarfon a Dinas Dinlle.
- Treuliodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 dridiau yng Nglanllyn cyn y Pasg.Diolch i Miss Hannah Francis a Miss Lisa Williams am oruchwylio'r plant.
- Derbyniodd blwyddyn 6 hyfforddiant beicio lefel 1 a 2.

Tymor yr Haf 2018

- Bu'r heddwas Dylan Pritchard yn cynnal gweithdai addysgol ar Ddiogelwch y We cyn ddiwedd y tymor.
- Bu'r disgyblion sy'n derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol yn perfformio i weddill yr ysgol ar ddiwedd y tymor.
- Bu plant y dosbarth Derbyn yn ymweld â Chastell Caernarfon ddechrau tymor yr Haf fel rhan o'u gwaith thema ar Ddreigiau.
- Buont hefyd yn ymweld â Pili Palas i gyd- fynd â'u gwaith thema ar greaduriaid bach.
- Bu disgyblion Bl Derbyn 1, 2, 3 a 4-yn Gelli Gyffwrdd ddiwedd y tymor.
- Bu blwyddyn 5 a 6 yn ymweld âg Amgueddfa y Beatles yn Lerpwl a chafwyd ddisgo y 60 degau i orffen y thema ym mis Gorffennaf.
- Bu blwyddyn 6 ar ymweliad dau ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail ddiwedd Mehefin.
- Bu plant blwyddyn Meithrin ar ymweliad ddiwedd tymor i Barc Sipsi a bu i blant y dosbarth Derbyn i flwyddyn ymweld å Gelli Gyffwrdd ddiwedd y tymor.
- Treuliodd flwyddyn 6 dridiau yn Rhyd- ddu ddiwedd y tymor a chafwyd amser i'w gofio.

ALL-GYRSIOL:

- Blwyddyn 5 a 6-tridiau yng Nghlanllyn ym mis Ebrill 2018.
- Blwyddyn 6 – tridiau yn Rhyd- ddu ym mis Gorffennaf 2018.

MANYLION YSGOL 2017-8

ORIAU YSGOL

Sesiwn Bore – 9:00-12:00 Sesiwn Prynhawn– 1:00-3:00 (Babanod) 1:00-3:30 (Iau)

TYMOR A GWYLIAU

TYMOR Hydref 2018	3 Medi 2018 - 21 Rhagfyr 2018
TYMOR Gwanwyn 2019	7 Ionawr 2019- 12 Ebrill 2019
TYMOR Haf 2019	29 Ebrill 2019 - 22 Gorffennaf 2019

GWYLIAU:

29 Hydref – 2 Tachwedd 2018 – Hanner Tymor
24 Rhagfyr 2018 - 4 Ionawr 2019 – Gwyliau Nadolig
25 Chwefror -1 Mawrth 2019-Hanner Tymor
15-26 Ebrill 2019 -Gwyliau Pasg
6 Mai 2019 Calan Mai
27 Mai – 31 Mai 2018- Hanner Tymor
23 Gorffennaf - 30 Awst 2019-Gwyliau'r Haf

Trefniadau HMS- Hyfforddiant Staff 2018-9

Medi 3ydd – Di blant Staff Ganolig
Tachwedd 19eg- Hyfforddiant Staff
Ionawr 7 fed a'r 8 fed 2019 – Hyfforddiant Ysgol Ganolog a Dalgylchol
Gorffennaf 22ain - Di blant Staff Ganolig